# Canfyddiadau gwaith archwilio perfformiad

## Gwella'n barhaus

Fe wnaeth fy nhîm ystyried i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae gan yr Awdurdod ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ei welliant ac adrodd ar ei berfformiad.

Canfûm fod yr Awdurdod yn debygol o ateb ei ofynion yn ystod 2024-25.

## Pennu amcanion llesiant

Fe wnaeth fy nhîm ystyried i ba raddau y gweithredodd yr Awdurdod yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant yn 2024.

Canfûm nad yw'r Awdurdod yn rhoi digon o ffocws ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei gynlluniau corfforaethol.

Fe wnes i dri argymhelliad. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau'r modd y cymhwysir yr egwyddor i ddangos yn glir sut y mae'r Awdurdod yn cynyddu i'r eithaf ei gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol, yn ystyried y tymor hwy, ac yn sicrhau bod her briodol i'w adolygiad. Fe argymhellais hefyd fod yr Awdurdod yn cysylltu'r adolygiad o'i amcanion yn fwy eglur â'i adnoddau ac yn cryfhau ei weithgarwch monitro i'w alluogi i ddeall yr effaith a'r deilliannau y mae wedi'u cyflawni.

## Gwaith atal tanau sy'n targedu anheddau risg uchel

Fe wnaeth fy nhîm fwrw golwg ar ddull yr Awdurdod o dargedu ei waith atal tanau. Fe ganolbwyntiom ni ar dargedu'r bobl fwyaf agored i niwed i helpu i leihau tanau a lleihau anaf difrifol neu farwolaeth.

Canfûm fod angen i'r Awdurdod wneud mwy i dargedu ei adnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Mae wedi profi trosiant staff uchel sydd wedi effeithio ar sut y gall gryfhau ei ddull. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn gwneud rhai newidiadau a allai fod yn gadarnhaol.

